

Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn
ein Cynllun Blynyddol 2026-27 yn ystod y
cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026.

Hydref 2026

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026. Fe'i paratowyd ar y cyd, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad i ganfod i ba raddau:

- y mae'r modd y cyflawnwyd swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â'r Cynllun Blyneddol a baratowyd ar gyfer 2026-27;
- y gwnaed cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun; ac
- y gwnaed cynnydd tuag at gyrraedd targedau ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru'n endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen manwl gywirdeb cyfreithiol.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Rhagair	4
Cyflawni gwaith archwilio	6
Gwaith archwilio lleol	6
Astudiaethau cenedlaethol	8
Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol	10
Gwella busnes	12
Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel	13
Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu	15
Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu	16
Dangosyddion perfformiad allweddol	18



Rydym yn falch i gyflwyno ein Adroddiad Interim ar gyfer 2026.

We are pleased to present our Interim Report for 2026.

Mae'r Adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026 o ran cyflawni'r rhaglenni gwaith a chyrraedd targedau'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn ein Cynllun Blyneddol ar gyfer 2026-27. Ni ellir adrodd ar rai dangosyddion ar hyn o bryd gan na chodir eu data yn unol â'r amserlen adrodd interim.

Gwnaethom gynnydd da wrth gyflwyno rhaglen gynhwysfawr ac effeithiol o waith archwilio. Cafodd yr holl archwiliadau o gyfrifon y GIG ar gyfer 2025-26 eu cwblhau erbyn 30 Mehefin 2026. Cafodd yr holl archwiliadau o gyfrifon y llywodraeth ganolog a oedd wedi'u hamserlennu eu cwblhau erbyn 30 Medi 2026.

Er gwaethaf y gwelliannau yn gyffredinol, mae materion parhaus gyda pharatoi cyfrifon llywodraeth leol drafft, ochr yn ochr ag oedi parhaus cyn cael ymatebion i ymholiadau archwilio gan rai cyrff, yn golygu nad yw cyflawni'r holl archwiliadau yn y sector hwn yn llwyddiannus erbyn y terfyn amser, sef 30 Medi, yn bosibl eto.

Un o'n blaenoriaethau hirdymor ar gyfer gwella busnes yw symud amserlen gwaith archwilio cyfrifon llywodraeth leol ymlaen, ac rydym yn ymwneud yn weithredol gyda'r sector i rannu arfer gorau.

Fe gyflawnom ni chwe allbwn ar ffurf adroddiadau cenedlaethol yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026. Fe wnaethom hefyd barhau i siapio ein gwaith archwilio perfformiad lleol i ymdrin â'r heriau esblygol a wynebwr gan gyrff a archwilir, ac fe gyhoeddom ni 82 o adroddiadau lleol ar ystod eang o destunau.

Rydym hefyd yn falch i nodi, i raddau helaeth, ein bod wedi wedi cwblhau ein cynllun tair blynedd i glirio ôl-groniadau ar ôl y pandemig yn ein rhaglenni o waith archwilio perfformiad lleol mewn llywodraeth leol ac yn y GIG.

Yn y cyfnod adrodd, fe wnaethom ni amrywiaeth o waith ar feithrin perthnasoedd effeithiol â'r Senedd newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, ac fe wnaethom barhau i osod y sylfeini ar gyfer Archwilio Cymru sy'n fwy aeddfed yn ddigidol.

Rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar adeiladu Archwilio Cymru sydd fwy aeddfed ddigidol.

Un blaenoriaeth allweddol oedd paratoi ar gyfer trosglwyddo a chyflwyno ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol newydd; Yr Adroddiad Interim hwn yw'r cyntaf yng nghyfnod Catherine ac mae'n adrodd ar gynnydd parhaus tuag at gyflawni ein strategaeth 2022-2027. Rydym yn ymrwymedig i adeiladu ar y momentwm yma am weddill y flwyddyn, gan ddefnyddio ein safbwynt a'n harbenigedd unigryw i sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, egluro sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario, ac ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella.

Yn hydref 2026, byddwn yn dechrau gwaith ar ddatblygu strategaeth newydd uchelgeisiol i Archwilio Cymru ar gyfer y blynyddoedd nesaf.



Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru



Dr Ian Rees
Cadeirydd, Swyddfa
Archwilio Cymru



Cyflawni gwaith archwilio



Gwaith archwilio lleol

- 1 Rydym yn gwneud gwaith archwilio lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r gyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio, a'r math o waith archwilio lleol a wnaethom yn y gyrff hynny, yn ein [Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2026-27](#).

Archwilio cyfrifon

- 2 Y maes mwyaf o ran ein gwaith lleol yw archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae ein gwaith archwilio cyfrifon yn darparu asesiad annibynnol ac arbenigol parhaus ar gyfer y Senedd, gyrff a archwilir a'r cyhoedd o wydnwch a rheoli ariannol ar draws y sector cyhoeddus.
- 3 Ar gyfer cyfrifon sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2025-26, rydym yn gweithio i'r terfynau amser canlynol o ran ardystio'r prif waith archwilio:
 - Cyrff y GIG: 30 Mehefin 2026
 - Cyrff y llywodraeth ganolog: pedwar mis ar ôl eu cael, gyda phob un o'r pum cwmni a berchnogir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2026
 - Prif gyrff llywodraeth leol: 30 Medi 2026 (un mis yn gynharach na'r llynedd)
 - Cynghorau tref a chymuned: 30 Medi 2026
- 4 Fe wnaeth pob un o 12 corff y GIG gyflwyno eu cyfrifon ar amser ac fe'u hardystiwyd erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin. Wedyn fe wnaethom ardystio cyfrifon cryno GIG Cymru ym mis Medi 2026.
- 5 Ar gyfer llywodraeth ganolog, erbyn 30 Medi, roedd 28 o'r 30 o gyrff a archwilir wedi cyflwyno cyfrifon drafft ac roedd 17 eisoes wedi cael eu hardystio. Mae pob un o'r cyfrifon llywodraeth ganolog drafft sy'n weddill ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn eu dyddiad terfyn.

- 6 Mewn llywodraeth leol, fe wnaeth 22 o'r 32 o brif gyrff llywodraeth leol gyflwyno cyfrifon drafft erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â'r 16 a gyflwynwyd erbyn y terfyn amser yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd 18 o'r setiau hyn o gyfrifon eu hardystio erbyn y terfyn amser, sef 30 Medi. Ceir rhagor o wybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud i ddod â'r amserlen ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol ymlaen yn yr adran Gwella Busnes o'r adroddiad hwn.
- 7 Dylid nodi hefyd, ar gyfer cronfeydd pensiwn llywodraeth leol, bod pob un o'r wyth cronfa bensiwn bellach wedi cyflwyno cyfrifon drafft, er mai dim ond pedwar oedd wedi gwneud hynny erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin. Er gwaethaf yr oedi yma, maent i gyd ar y trywydd iawn i gael eu hardystio erbyn y terfyn amser, sef 1 Rhagfyr.
- 8 Mae archwiliad cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2025-26, lle y dérbyniwyd adroddiadau blynyddol, yn mynd yn dda, er gwaethaf blaenoriaethu cyflwyno archwiliadau cyrff llywodraeth leol allweddol yn chwarter dau. Roedd 202 o gyfrifon wedi cael eu hardystio erbyn 30 Medi, o'i gymharu â 136 o gyfrifon 2024-25 ar ddiwedd Medi 2025. Cawsom tua 600 o'r 735 o adroddiadau blynyddol a oedd eu hangen yn y cyfnod amser cytûn ac rydym yn dilyn derbyn adroddiadau sydd ar ôl. Mae'r adnoddau yn y chwarter hefyd wedi canolbwyntio ar glirio adroddiadau blynyddol blaenorol; mae nifer yr adroddiadau sydd ar ôl wedi lleihau'n sylweddol ac mae'n 69 erbyn hyn.

Archwilio perfformiad

- 9 Fe wnaethom barhau i gyflawni gwaith archwilio perfformiad lleol i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, yn bennaf ar draws llywodraeth leol a chyrff y GIG, ond hefyd gyda pheth gwaith yn y sector llywodraeth ganolog.
- 10 Yn ystod y cyfnod adrodd, fe gyhoeddodd ni ar ein gwefan 82 o adroddiadau archwilio perfformiad lleol ar ystod eang o destunau.
- 11 Roedd y rhain yn cynnwys allbynnau lleol o adolygiadau ar draws cyrff lluosog, megis recriwtio a chadw mewn llywodraeth leol, addasiadau tai, trawsnewid digidol yn y GIG, ystadau'r GIG, a gwasanaethau canser.
- 12 Ceir rhagor o wybodaeth am gynnydd i fyrhau'r ffrâm amser ar gyfer cwblhau gwaith archwilio perfformiad lleol yn yr adran Gwella Busnes o'r adroddiad hwn.



Astudiaethau cenedlaethol

- 13 Rydym yn cynnal rhaglen barhaus o astudiaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau sy'n canolbwyntio ar y GIG a llywodraeth leol yn ychwanegol at ein rhaglenni archwilio lleol yn y sectorau hynny. Rydym hefyd yn paratoi allbynnau ychwanegol sy'n amlygu themâu cyffredin o'n gwaith archwilio lleol.
- 14 Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys manylion astudiaethau cenedlaethol a oedd ar y gweill o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 a gwaith newydd yr oeddem yn bwriadu ei ddechrau yn 2026-27. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith sydd ar y gweill gennym ar hyn o bryd ar gael ar ein gwefan.
- 15 Mae'r tabl isod yn rhestru chwe allbwn ar ffurf adroddiadau cenedlaethol uwch eu proffil o wahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026.
- 16 Rydym yn parhau i adolygu ein rhaglen o astudiaethau'n rheolaidd, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein hadnoddau ni ein hunain a chapasiti cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Rydym yn cynnal digon o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb yn effeithiol i faterion sy'n dod i'r amlwg ac sydd o bwys yn gyhoeddus neu'n seneddol.
- 17 Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd ystyriaethau perthnasol yn cynnwys ystyried barn yr Archwilydd Cyffredinol newydd a datblygiadau polisi yn dilyn etholiadau'r Senedd a ffurfio'r llywodraeth newydd.
- 18 Ers 1 Ebrill, rydym hefyd wedi gwneud rhai newidiadau i'n rhaglen astudiaethau llywodraethu lleol i ystyried adolygiadau sy'n cael eu gweithredu gan gyrff eraill a ddaeth i'r amlwg ar ôl y gwaith cwmpasu cyntaf. Mae hyn wedi cynnwys gwaith cynlluniedig ar gymorth gan awdurdodau lleol i reolaeth ariannol ysgolion, ac ar wasanaethau dewisol mewn llywodraeth leol. Mae ein gwaith cenedlaethol cynlluniedig ar cyd-bwyllgorau corfforaethol hefyd yn dal i gael ei ohirio tra bo ni'n aros am gyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru ar gyd-bwyllgorau corfforaethol. Rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer gwaith astudiaeth llywodraeth leol newydd arall i'w datblygu yn ddiweddarach eleni i ddisodli'r pynciau hyn.

Allbynnau ar ffurf adroddiadau cenedlaethol a gwblhawyd yn y cyfnod adrodd hwn

	 Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb	 Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur	 Gwydnwch gwasanaethau a mynediad atynt	 Gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda
<u>Anghenion Dysgu</u>				
<u>Ychwanegol: Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio?</u>	✓		✓	✓
<u>Gofal a gynlluniwyd y GIG – a yw'n addas ar gyfer y dyfodol?</u>	✓		✓	✓
<u>Gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG – system dan bwysau cyson</u>			✓	✓
<u>Datganiad newyddion a diweddarau offeryn data cyllid GIG Cymru</u>				✓
<u>Ariannu cynghorau: sut y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynghorau</u>				✓
<u>Digidol yn y GIG: cyflawni ddim yn cyd-fynd â'r uchelgais</u>			✓	✓



Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

Cefnogi gwaith y Senedd

- 19 Yn ystod y cyfnod adrodd, fe ddechreuom ni feithrin ein perthynas â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd newydd, sy'n ystyried sut y defnyddir adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.
- 20 Fe wnaethom gefnogi pum cyfarfod ffurfiol gan y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys darparu sesiwn frifio fer i gyflwyno ein gwaith, a'r Archwilydd Cyffredinol blaenorol yn cynnig ei fyfyrddodau ynghylch heriau a chyfleoedd i wasanaethau cyhoeddus Cymru.
- 21 Fe wnaethom hefyd frifio'r Pwyllgor ynghylch pedwar o'n hallbynnau ar ffurf adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn y cyfnod. Cynhaliwyd ein sesiwn frifio ar gyllid y GIG cyn sesiwn dystiolaeth gyda byrddau iechyd ganol mis Hydref. Mae ein gwaith ar drawsnewid digidol yn y GIG wedi goleuo cwmplas ymchwiliad gan y Pwyllgor sydd wrthi'n dechrau ar hyn o bryd.
- 22 Ar ddiwedd mis Awst ac ym mis Medi, fe ymatebon ni i ymgynghoriadau a lansiwyd gan saith o bwyllgorau eraill y Senedd ynghylch eu rhaglenni gwaith. Nid ydym yn ystyried mai ein lle ni yw gwneud sylwadau ar flaenoriaethau penodol pwyllgorau. Fodd bynnag, fe ddefnyddiom ni ein hymatebion i godi rhai materion ehangach a thynnu sylw at waith archwilio perthnasol.
- 23 Ceir rhagor o wybodaeth am ein hymgysylltiad â'r Senedd yn yr adran Gwella Busnes o'r adroddiad hwn.

Cefnogi pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

- 24 Trwy gydol y cyfnod adrodd, buom yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n rheolaidd i'w brifio ac adrodd ar ein gwaith.
- 25 Rydym yn mynychu rhwydwaith Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol y GIG yn rheolaidd. Fe wnaethom hefyd barhau â'n sesiynau brifio rheolaidd ar faterion sy'n gysylltiedig ag archwilio ar gyfer grwpiau Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG, Grŵp Llywodraeth Leol Cymdeithas Trysoryddion Cymru a'i Is-grŵp Prif Gyfrifwyr, a Grŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio'r Llywodraeth Ganolog.

Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

- 26 Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch defnyddio arian cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn Berson Rhagnodedig ar gyfer cael datgeliadau chwythu'r chwiban ynglŷn â chynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredigaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.
- 27 Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom 87 o eitemau o ohebiaeth ac fe wnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, fe gysylltodd 20 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2026 i ddynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.
- 28 Yn gyfuniad, mae cyfanswm o 107 o achosion gohebiaeth newydd a chwibanio bron yr un fath â'r 106 a adroddwyd yn ein Hadroddiad Interim flwyddyn yn ôl. Mae hyn yn parhau â'r duedd o ran cynnydd o ryw 50% mewn achosion o'i gymharu â 2024-25, fel a nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2025-26.

Gwella busnes

- 29 2026-27 yw blwyddyn olaf ein Strategaeth pum mlynedd gyfredol. Yn y strategaeth honno, fe wnaethom adnabod tri maes ffocws ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu:



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel




Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

- 30 Yn ein Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2026-27, fe ymrwymon ni i weithredu'n strategol ar draws pedair blaenoriaeth cynllunio busnes allweddol. Mae'r tudalennau canlynol yn darparu manylion y cynnydd a wnaethom yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau hyn yn y cyfnod adrodd.



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Blaenoriaethau

Dod â'r amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon llywodraeth leol ymlaen i 30 Medi ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r sector i rannu arferion gorau.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2026-27

Statws: Ar y trywydd iawn

Sylwebaeth:

Fel a amlinellwyd yn flaenorol, fe wnaeth 22 o'r 32 o brif gyrff llywodraeth leol gyflwyno eu cyfrifon drafft i ni erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin. Roedd 20 o'r rhain yn gyrff lle ceir hanes cryf o gyfrifon drafft a phapurau gwaith o ansawdd da, ac y disgwyliid y byddai'r gwaith archwilio ar eu cyfer yn cael ei gwblhau erbyn 30 Medi. Cafodd 18 o'r setiau hyn o gyfrifon eu hardystio erbyn y terfyn amser, sef 30 Medi, fel cytunwyd, gyda'r ddau archwiliad arall yn profi oedi a achoswyd gan ffactorau a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol ni.

Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar yr archwiliadau llywodraeth leol sy'n weddill, gan gynnwys ar gyfer y 12 corff sy'n wynebu heriau cyson o ran paratoi cyfrifon, lle cytunwyd ar gynlluniau adfer wedi'u teilwra â therfynau amser pendant gydag uwch arweinwyr ar gyfer 2025-26. Fodd bynnag, roedd cyfrifon drafft ar gyfer pump o'r cyrff hyn yn dal heb ddod i law o ran y sefyllfa ar 30 Medi. Ar gyfer pedwar o'r cyrff hyn, mae gwaith archwilio'n parhau ar gyfrifon 2024-25 hefyd gyda chyfrifon 2023-24 yn dal heb eu cwblhau ar gyfer un corff oherwydd materion cyfrifyddu cymhleth parhaus.

Ym mis Gorffennaf 2026, fe ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Gwaith Archwilio at y cyrff perthnasol i bwysleisio mor bwysig ydyw bod cyrff a thimau archwilio'n cydweithio'n agos yn ystod y cyfnod archwilio, yn enwedig yn achos cyrff sydd â chynlluniau adfer wedi'u teilwra.

Rydym yn parhau i gefnogi'r sector trwy ymgysylltu â Chymdeithas Trysoryddion Cymru a thrwy hyrwyddo pwysigrwydd cyfrifon drafft a phapurau gwaith o ansawdd da. Mae rhagor o ddigwyddiadau arfer da yn yr arfaeth ar gyfer mis Ionawr 2027 fel rhan o'n cymorth parhaus ar gyfer adferiad ar draws y sector.

Blaenoriaethau

Byrhau'r ffrâm amser ar gyfer cwblhau gwaith archwilio perfformiad lleol, fel bod yr holl waith yn cael ei gwblhau o fewn tri mis i ddiwedd y flwyddyn y mae'r cynllun archwilio yn ymwneud â hi.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2026-27

Statws: Ar y trywydd iawn gan mwyaf ond angen peth gwelliant pellach

Sylwebaeth:

Erbyn mis Medi 2026, ein targed cyntaf dan y flaenoriaeth hon oedd cwblhau ein cynllun tair blynedd i glirio ôl-groniadau ar ôl y pandemig yn ein rhaglenni o waith archwilio perfformiad lleol mewn llywodraeth leol ac yn y GIG.

Yn y sector llywodraeth leol, ein nod oedd clirio unrhyw ôl-groniad gweddillol a chyflawni'r rhaglen o waith archwilio perfformiad llywodraeth leol ar gyfer 2025-26 erbyn 30 Mehefin 2026. Fe gyflawnom ni hyn at ei gilydd gyda bron pob adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ffurf adroddiad drafft o leiaf erbyn y dyddiad hwnnw.

Ar gyfer gwaith lleol yn y GIG, buom bron â chyrraedd y targed, gyda phedwar prosiect yn dal yn fyw ar 30 Medi 2026. Mewn dau o'r achosion hyn, roeddem yn disgwyl am sylwadau ar adroddiadau drafft gan gyrff a archwilir. Fe gyhoeddodd ni adroddiadau drafft ar gyfer y ddau brosiect arall erbyn canol mis Hydref.

Wrth edrych tua'r dyfodol, ein hail darged dan y flaenoriaeth hon yw cwblhau'r holl waith lleol arfaethedig yn gyson erbyn y terfyn amser gorau posibl ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol sy'n cael effaith (31 Mawrth ar gyfer y GIG a 30 Mehefin ar gyfer llywodraeth leol). Mae cynnydd o ran clirio'r ôl-groniad gyda rhaglen llywodraeth leol 2025-26 yn rhoi hyder inni y byddwn yn gallu gwireddu'r uchelgais erbyn mis Mehefin 2027 ar gyfer rhaglen 2026-27. Ar gyfer y GIG, mae'r uchelgais yn dal i fod yn gryn her a bydd yn dibynnu ar ymgysylltu amserol gan gyrff a archwilir, ond rydym wedi gwneud dechrau da ar raglen y flwyddyn gyfredol.



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Blaenoriaethau

Meithrin perthnasoedd effeithiol gyda'r Senedd newydd a Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2026-27

Statws: Ar y trywydd iawn

Sylwebaeth:

Mae paragraffau 19 i 23 yn darparu sylwebaeth ar ein hymgysylltiad â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a sut yr ydym wedi ymateb i amryw ymgynghoriadau gan bwyllgorau'r Senedd.

Ar 2 Mehefin 2026 roedd yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol a nifer o gydweithwyr yn Archwilio Cymru yn bresennol mewn digwyddiad yn y Senedd o'r enw 'Y Farchnad'. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i gwrdd yn y cnawd ag Aelodau o'r Senedd a oedd newydd gael eu hethol a chodi ymwybyddiaeth o'n gwaith. Cyn y digwyddiad, fe anfonodd yr Archwilydd Cyffredinol daflen gyflwyniadol at yr aelodau a oedd yn rhoi crynodeb o'n rôl, ein pwerau cyfreithiol a'n swyddogaethau archwilio.

Ar 17 Medi, roedd yr Archwilydd Cyffredinol newydd, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a chydweithwyr eraill o Archwilio Cymru yn bresennol wedyn mewn cyfarfod rhagarweiniol gyda'r Pwyllgor Cyllid newydd, cyn sesiynau tystiolaeth ffurfiol a oedd yn yr arfaeth ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd. Roedd y sesiwn breifat hon yn gyfle defnyddiol i drafod rolau a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn gyfle i gyfnewid barn ynglŷn ag adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid blaenorol, a wnaeth amlygu'r heriau a achosir gan ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag archwilio o ran cymhlethdod, annibyniaeth archwilio, a gwerth am arian.

Yn ddiweddar rydym wedi dechrau'r broses o ystyried y Rhaglen Lywodraethu newydd ar gyfer y cyfnod o 2026 i 2030 wrth ddatblygu ein rhaglenni o waith archwilio yn y dyfodol. Am weddill 2026-27, byddwn hefyd yn parhau i geisio cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â Gweinidogion Cymru ynghylch Archwilio Cymru a'n gwaith.



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Blaenoriaethau

Cynyddu digideiddio archwilio trwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ac offer digidol eraill sy'n gwella ansawdd, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith.

Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2026-27

Statws: Ar y trywydd iawn

Sylwebaeth:

Yn ystod hanner cyntaf 2026-27, fe wnaethom barhau i osod y sylfeini ar gyfer Archwilio Cymru sy'n fwy aeddfed yn ddigidol. Mae Grŵp Llywio Mentrau Digidol wedi cael ei sefydlu fel fforwm ar draws y sefydliad i oruchwyllo datblygiadau digidol a Deallusrwydd Artiffisial. Mae ei gyfarfodydd misol yn darparu strwythur ar gyfer ein hystyriaeth i dechnolegau sy'n dod i'r amlwg, cynigion newydd, risgiau a chyfleoedd. Mae is-grwpiau ategol yn cryfhau ein gwaith sganio'r gorwel, datblygu pobl ac achredu.

Mae'r trefniadau hyn yn ein galluogi i arloesi gan hefyd ddefnyddio dull 'chwilfrydig ond gofalus' sy'n rhoi sylw priodol i ddiogelwch, diogelu data, moeseg, cydraddoldeb, tryloywder ac effaith amgylcheddol.

Ochr yn ochr â defnydd cynyddol o Microsoft Copilot, fel a drafodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf, mae oddeutu 80 o gydweithwyr bellach yn cymryd rhan mewn peilot o Anthropic Claude, i archwilio sut y gall Deallusrwydd Artiffisial gefnogi cynhyrchiant personol trwy weithgareddau sy'n cynnwys crynhoi dogfennau mawr, dadansoddi setiau data a rhoi cymorth i ddrafftio. Mae GitHub Copilot hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi codwyr a dadansoddwyr yn ein timau TG a Dadansoddeg Data.

Er bod llawer o'n defnydd cyfredol o Ddeallusrwydd Artiffisial yn canolbwyntio ar gynhyrchiant personol, rydym hefyd yn ystyried y camau nesaf ar gyfer ei ddefnyddio mewn ffyrdd mwy datblygedig, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio asiantau Deallusrwydd Artiffisial mewn agweddau ar ein gwaith archwilio.

Blaenoriaethau	Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2026-27
Cynyddu digideiddio archwilio trwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ac offer digidol eraill sy'n gwella ansawdd, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith.	Wrth i'n defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ddatblygu, ein pobl fydd yn dal i arfer crebwyll proffesiynol ac i fod ag atebolrwydd personol. Byddwn yn parhau i ystyried ansawdd a dibynadwyedd allbynnau a gynhyrchwyd â Deallusrwydd Artiffisial yn ofalus, ochr yn ochr â darparu tryloywder priodol ynglŷn â ble y defnyddiwyd Deallusrwydd Artiffisial. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym hefyd wedi datblygu platfformau archwilio digidol mewnol i ategu'r prosesau sy'n tanategu ein gwaith archwilio cyfrifon a gwerth am arian. Mae'r platfformau hyn yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer digideiddio gwaith archwilio ymhellach. Bu ein ffocws dros y chwe mis diwethaf ar wella'r platfformau hyn, gan eu hawtomeiddio'n fwyfwy lle gall hyn wella ansawdd, cysondeb ac effeithlonrwydd. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym yn parhau i ddatblygu datrysiadau digidol ymarferol sydd wedi'u teilwra i agweddau penodol ar ein gwaith archwilio. Mae'r rhain yn cynnwys peiriant tystiolaeth, sy'n cael ei ddefnyddio i wella'r modd y caiff tystiolaeth archwilio perfformiad ei rheoli ac i wella rheolaeth ar ei hansawdd, a dull archwilio a gynorthwyir gan ddadansoddeg yn ein gwaith i archwilio cyfrifon y GIG. Ar draws y sefydliad, rydym yn chwilio'n fwyfwy am gyfleoedd i ddisodli'r prosesau a gyflawnir â llaw lle y bo'n briodol, defnyddio'r data yr ydym yn ei ddal mewn modd gwell a datblygu ffyrdd symlach, mwy effeithlon o weithio. Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn yn golygu newid o fentrau digidol unigol i ddull mwy systematig o fynd ar drywydd trawsnewid digidol ar draws Archwilio Cymru.



Dangosyddion perfformiad allweddol

- 31 Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig. Yn yr arddangosyn isod, rydym yn darparu diweddariad canol blwyddyn ar gynnydd a wnaed tuag at gyrraedd targedau'r dangosyddion perfformiad allweddol.
- 32 Yn yr arddangosyn, mae rhai rhifau wedi'u talgrynnu i'w gwneud yn haws i'w darllen a'u cymharu, ac mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cyd-fynd â'r meysydd ffocws strategol y maent yn ymwneud â hwy.



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2026-27	Perfformiad 2025-26	Perfformiad hyd at 30 Medi 2026
1	Archwilio cyfrifon	Cyfran y barnau archwilio cyfrifon a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol neu arfaethedig ¹ .	100%	● 94%	● 98%
2	Archwilio perfformiad	Cyfran y cynhyrchion archwilio perfformiad ² a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig.	90%	● 83%	● 89%

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

1 Lle mae cyrff a archwilir yn cyflwyno cyfrifon drafft o ansawdd da erbyn y terfyn amser gofynnol ac yn ymateb mewn modd amserol i ymholiadau archwilio.

2 Allbynnau astudiaethau cenedlaethol a rhaglenni archwilio blynyddol ar gyfer cyrff unigol y GIG a llywodraeth leol. Mae'r mesur yn ystyried graddfa ac effaith unrhyw oedi y tu hwnt i amserlenni arfaethedig a pha un a ydynt yn ymwneud â ffactorau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2026-27	Perfformiad 2025-26	Perfformiad hyd at 30 Medi 2026
3	Ansawdd	Nifer yr archwiliadau wedi'u hadolygu a gyflawnir yn unol â safonau ansawdd disgwyledig ³ .	Yr holl archwiliadau wedi'u samplu yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf	● 7 allan o 8	Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto
4	Hygrededd	Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn ein bod yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ynglŷn â llywodraethu a stiwardiaeth ar arian ac asedau cyhoeddus.	O leiaf 90%	● 90%	Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto
5	Darparu mewnwelediad	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall.	O leiaf 80%	● 78%	Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

3 Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, safonau proffesiynol INTOSAI ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, a safonau ansawdd a safonau moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer yr holl waith.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2026-27	Perfformiad 2025-26	Perfformiad hyd at 30 Medi 2026
6	Ysgogi gwelliant	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus.	O leiaf 80%	● 70%	Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto
7	Arbedion a adnabuwyd	Gwerth arbedion, enillion cynhyrchiant a manteision ariannol eraill posibl a adnabuwyd trwy ein gwaith.	O leiaf £30 miliwn yn ystod 2024- 2027	● £46 miliwn yn ystod 2023-2026	● £48 miliwn

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2026-27	Perfformiad 2025-26	Perfformiad hyd at 30 Medi 2026
8	Allbynnau arfer da	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein hallbynnau arfer da'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.	O leiaf 90%	● 100%	● 100%
9	Ymweliadau â'r wefan	Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle cyflawnir o leiaf un weithred, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.	75,000 y flwyddyn	● 69,000	● 30,500
10	Cyfryngau cymdeithasol	Nifer yr ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithiadau â'n postiadau megis hoffi, gwneud sylw, neu rannu.	5,000 y flwyddyn	● 5,300	● 3,500
11	Rhannu gwersi archwilio	Nifer yr achosion lle'r ydym yn cyflwyno gwersi archwilio i gynulleidfaoedd allanol ⁴ .	50 y flwyddyn	● 58	● 30

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

4 Beyond routine engagement with audited bodies and including, for example, at key policy working groups or externally hosted events.



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2026-27	Perfformiad 2025-26	Perfformiad hyd at 30 Medi 2026
12	Ymgysylltiad cyflogeion	Sgôr mynegai ymgysylltu'r arolwg staff blynyddol.	O leiaf y sgôr canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y Gwasanaeth Sifil (65%)	● 73%	Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto
13	Trosiant	Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru yn wirfoddol bob blwyddyn.	Llai na 10%	● 3.8% ⁵	● 4.1%
14	Absenoldeb oherwydd salwch	Cyfran o gyfanswm yr amser a gollwyd i absenoldeb oherwydd salwch.	Llai na 4%	● 3.3%	● 3.0%
15	Mantoli'r cyfrifon ariannol	Amrywiant mewn gwariant net o'i gymharu â'r gyllideb a bennwyd yn ein Hamcangyfrif.	Tanwariant o lai na 2% o'r gyllideb	● 3.2%	● 1.6%

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

⁵ Ein targed yn 2025-26 oedd rhwng 5% a 10%.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2026-27	Perfformiad 2025-26	Perfformiad hyd at 30 Medi 2026
16	Arbedion mewn costau	Gwerth yr arbedion mewn costau yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes.	£300,000 fel a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2026-2027	● Wedi mynd y tu hwnt i £200,000 mewn arbedion nad oeddent yn ymwneud â chyflogau ⁶	● Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o £300,000
17	Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Cyfanswm yr allyriadau cyfwerth â CO ₂ ⁷ .	25 tunnell yn llai nag yn 2025-26 ⁸	● 3188 o dunelli	● 95 o dunelli
18	Cyfradd lwyddo hyfforddeion	Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr.	O leiaf 90%	● 89%	● 100%

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

6 Roedd hyn yn erbyn targed o £200,000 fel a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2025-26.

7 Heb gynnwys amcangyfrifon allyriadau'r gadwyn gyflenwi yr adroddir arnynt ar wahân yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd blyneddol.

8 Ffigwr 2025-26 wedi'i bennu fel sylfaen newydd yn dilyn cyflwyno methodolegau adrodd diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a newid i fodel gweithio hyblyg mwy sefydlog ar ôl y pandemig.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.